Manyleb Swydd

Teitl Swydd:	Cydlynydd Marchnata a Digwyddiadau
Prosiect:	Datblygu Marchnadoedd Bwyd Môr a Marchnata Corfforaethol
Adran:	Bwyd a Chanolog
Lleoliad:	Bangor neu Lanelwy
Rheolwr Llinell:	Rheolwr Prosiect Datblygu Marchnadoedd Bwyd Môr
Graddfa:	4
Cyflog:	£25,911 - £28,531
Cytundeb:	Llawn amser
Sgiliau Dwyieithog:	Hanfodol

Dyma gyfle gwych i weithio o fewn y Sector Bwyd Môr yng Nghymru ac i Menter a Busnes - cwmni datblygu economaidd mwyaf blaenllaw Cymru.

Prosiect Datblygu Marchnadoedd Bwyd Môr (3 diwrnod)

Mae prosiect Datblygu Marchnadoedd Bwyd Môr yn fenter a ddatblygwyd mewn partneriaeth rhwng Menter a Busnes a Seafish, ac mae'n cael ei ariannu gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a Llywodraeth Cymru **tan fis Hydref 2021.** Mae'r prosiect yn anelu at ddatblygu marchnadoedd ar gyfer Bwyd Môr o Gymru gartref ac yn rhyngwladol ynghyd â chynorthwyo busnesau bwyd môr i ddiffinio brand bwyd môr clir, deall gofynion presennol y farchnad, cynyddu arbenigedd marchnata ac annog llongau i gyrraedd y safon RFS (Cynllun Pysgota Cyfrifol). Bydd Prosiect Datblygu Marchnadoedd Bwyd Môr yng Nghymru yn cynnig cefnogaeth trwy'r llwybrau canlynol:

1. Marchnata Uniongyrchol
2. Cefnogaeth Fusnes
3. Gwyliau a Digwyddiadau Bwyd Môr

Menter a Busnes - Marchnata Canolog / Corfforaethol (2 ddiwrnod)

Dyma gyfle cyffrous i reoli ymgyrchoedd amrywiol ac i adeiladu ar ein presenoldeb ar y we, yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol. Rydym ni'n dymuno adeiladu ar weithgareddau hyrwyddo presennol a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd, gan sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o bob cyfle ac yn adeiladu brand y cwmni. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r tîm canolog i greu a chynnal ymgyrchoedd

- Rheoli gwefan, cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau cyhoeddusrwydd y cwmni; gan ddefnyddio staff mewnol a chontractwyr allanol i'n cynorthwyo i gyrraedd ein nodau
- Cydlynu digwyddiadau
- Monitro, gwerthuso a chreu adroddiadau cynnydd

Nod y Rôl

- Cefnogi a chynorthwyo'r Rheolwr Datblygu Bwyd Môr i hyrwyddo gwaith y prosiect ac i drefnu digwyddiadau ar gyfer y diwydiant bwyd môr yng Nghymru, drwy gymryd cyfrifoldeb dros waith gweinyddol y tîm
- Gweinyddu Cronfa Gwyliau a Digwyddiadau Bwyd Môr Cymru drwy hyrwyddo cyllid ar gyfer gwyliau, rheoli ceisiadau a chasglu tystiolaeth gydag arweiniad gan y Rheolwr Prosiect
- Cefnogi'r tîm canolog wrth gydlynu a gweithredu cyfathrebu corfforaethol, gan sicrhau bod ymgyrchoedd yn cael eu cwblhau a bod targedau'n cael eu cyrraedd
- Datblygu brand Menter a Busnes a chyrraedd cynulleidfaoedd targed presennol a newydd

Prif Gyfrifoldebau

- Arwain ar hyrwyddo a gweinyddu Cronfa Gwyliau Bwyd Môr Cymru
- Rheoli'r wefan ac agweddau o redeg gwefan Menter a Busnes o ddydd i ddydd, gan gynnwys ymgyrchoedd y cwmni megis MAB 30
- Casglu a dehongli data'n ymwneud â dadansoddi'r we
- Monitro, trefnu a diweddaru'r cyfryngau cymdeithasol ar ran Menter a Busnes a'r Prosiect Datblygu Marchnadoedd Bwyd Môr - Twitter, Facebook, You Tube ayb
- Cydlynu ymgyrchoedd cyfathrebu ar ran y prosiect a'r cwmni - e-bost a thrwy'r post
- Cynorthwyo'r tîm i weithredu portffolio o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd i'r safon uchaf posibl yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- Cydlynu gwaith is-gontractwyr i ddarparu gwasanaethau a digwyddiadau ar ran y rhaglen
- Cynllunio strategaethau cyfathrebu gydag arweiniad ar gyfer Menter a Busnes a'r Prosiect Datblygu Marchnadoedd Bwyd Môr
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwyr Datblygu Bwyd Môr i ddylunio, trefnu, cydlynu a hyrwyddo rhaglen o ddigwyddiadau uchel eu proffil ledled Cymru
- Sicrhau bod manylion cofrestru a phresenoldeb mewn digwyddiadau yn cael eu cofnodi'n fanwl yn unol â gofynion y prosiect
- Dadansoddi, cydlynu a chrynhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau, gwerthuso canlyniadau yn erbyn targedau a darparu gwybodaeth berthnasol fel sy'n ofynnol i'r Rheolwr Datblygu a'r Rheolwr Prosiect

- Rheoli deunyddiau marchnata'r prosiect, gan gynnwys archebu a chludo; cysylltu gyda dylunwyr, cyfieithwyr ac argraffwyr mewnol ac allanol
- Sicrhau bod safonau ansawdd, gwasanaeth cwsmer, cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch a bioddiogelwch yn cael eu bodloni
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill fel bo'r angen
- Cynrychioli Menter a Busnes yn ôl yr angen

Sgiliau a Phrofiad

Hanfodol
- Addysg hyd lefel gradd, neu gyfwerth, a/neu brofiad gwaith mewn maes perthnasol
- Profiad o drefnu digwyddiadau - lleoliadau, lluniaeth, offer ayb
- Sgiliau trefnu a chydlynu rhagorol
- Sgiliau rhyngbersonol a gweinyddol rhagorol
- Sgiliau rheoli amser effeithiol
- Gallu meddwl yn greadigol
- Gallu ymdrin â cheisiadau ac ymholiadau'n brydlon ac yn amserol
- Sgiliau cyfathrebu dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) llafar ac ysgrifenedig ardderchog
- Gallu mewnbynnu data'n gywir ac i storio data yn unol â deddfwriaeth diogelu data perthnasol
- Gallu parhau gyda'i waith ei hun yn ogystal â bod yn rhan o dîm
- Gallu bod yn rhagweithiol ac arwain pethau yn eu blaen yn effeithlon
- Sgiliau cyfryngau cymdeithasol rhagorol-Facebook, Twitter, You Tube, Hootsuite ac ati
- Sgiliau defnyddio'r we - dealltwriaeth o systemau cefndir a rheoli cynnwys ar y we
- Sgiliau TG, gan gynnwys Word, Excel, PowerPoint, E-bost, Cronfeydd Data a'r We
- Trwydded yrru lawn a char i'w ddefnyddio
- Gallu gweithio gyda'r nos a thros y penwythnos fel bo'r angen gyda'r angen i aros dros nos yn achlysurol

Dymunol
- Cymhwyster CIM
- Gwybodaeth ynglŷn â Menter a Busnes
- Dealltwriaeth neu brofiad o'r sector bwyd môr yng Nghymru

Gwneud Cais

Gallwch wneud cais am y swydd hon drwy gwblhau ffurflen gais a ffurflen cyfleoedd cyfartal (ar gael ar ein gwefan: www.menterabusnes.co.uk) a'u dychwelyd at swyddi@menterabusnes.co.uk.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd hon, cysylltwch â Caroline Dawson ar 01745 770272.

Cyfweliadau

Cynhelir cyfweliadau ar gyfer y swydd hon yn swyddfa Menter a Busnes yn Aberystwyth ar ddydd Llun, 25 Chwefror. Os nad yw'r dyddiad yn gyfleus, nodwch hynny ar eich ffurflen gais.

Dyddiad Cau

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: dydd Llun, 18 Chwefror.

Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae copi o'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gael ar ein gwefan:
http://www.menterabusnes.co.uk/en/about/equality-and-diversity-policy